

Swydd:	Ystadegydd dan hyfforddiant
Adrodd i:	Uwch Ystadegydd
Lleoliad:	Swyddfeydd Data Cymru, Caerdydd
Cyflog:	Gradd 3 (£21,660 - £26,999)
Math o gontract:	Temporary. Hyd at 2 flynedd i ddechrau.

Y swydd

Bydd y swydd newydd hon yn rhan o'n tîm yng Nghaerdydd sy'n darparu cymorth i awdurdodau a'u partneriaid ledled Cymru. Byddwch yn rhan o dîm bach, ond cynyddol, sy'n cynnwys uwch ystadegydd, gwyddonydd data, ymchwilydd cymdeithasol a swyddog ystadegol.

Bydd y swydd yn addas i unrhyw un sy'n meddu ar:

- ddiddordeb mewn datblygu ei sgiliau ystadegol ac archwilio gyrfa ym maes ystadegau;
- profiad o weithio gyda data neu ddiddordeb yn nefnydd data; a
- sgiliau rhifedd da.

Swyddogaethau'r swydd hon

Drwy gyflenwi ystod o wasanaethau i gefnogi'n gwaith, bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â gwaith perthnasol a allai gynnwys:

- Cyfrannu at ein gallu ystadegol ac ymchwil;
- Cyfrannu at brosiectau sy'n cynnwys casglu, dadansoddi a defnyddio data perthnasol, yn fewnol ac o fewn sefydliadau cwsmer, er mwyn deall yr angen a hybu gwelliant gwasanaethau;
- Cynnal dadansoddiadau o ddata yn ôl manylebau diffiniedig, trin a thrafod y data yn ôl yr angen a llunio adroddiadau ar y dadansoddiadau; ac
- Ymgymryd ag unrhyw waith perthnasol arall yn ôl yr angen.

Manyleb berson

Rydym yn chwilio am unigolyn rhifog, cryf ei gymhelliant sydd â diddordeb cryf mewn data ac ystadegau. Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fodlon ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad pellach ym maes ystadegau ac ymchwil. Bydd rhaglen ddatblygu yn cael ei theilwra i adlewyrchu sgiliau presennol a dewisiadau dysgu'r ymgeisydd llwyddiannus.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol ryw faint o brofiad o ddefnyddio data i ddatrys problemau gan gynnwys gweithio gyda setiau data mawr neu gymhleth. Byddai profiad o becynnau meddalwedd priodol ar gyfer dadansoddi ystadegol a phroblemau mewn perthynas â data (e.e. SPSS, R a Power BI) yn fantais hefyd, fel y byddai'r gallu i siarad Cymraeg.

Cymwyseddau technegol

- Profiad o ddefnyddio pecynnau meddalwedd Microsoft, gan gynnwys sgiliau cryf Microsoft Excel;
- Defnyddiwr profiadol pecynnau meddalwedd priodol at ddibenion dadansoddi ystadegol a phroblemau mewn perthynas â data (e.e. SPSS, R a Power BI);

- Llygad graff am fanylion a chywirdeb; a'r
- Gallu i gyfathrebu gwybodaeth yn gywir, yn ddiogel ac yn eglur – ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cymwyseddau ymddygiadol

Cyfeiriwch at ein "Fframwaith Cymwyseddau" am fanylion y cymwyseddau sy'n ofynnol. Cymwyseddau Gradd 3 sy'n berthnasol i'r swydd hon.